| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU** | **WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd** | **General Certificate of Secondary Education**

165/51

**HANES**

**MANYLEB A: ASTUDIAETHAU MANWL AC AMLINELLOL O AGWEDDAU AR HANES CYMRU/LLOEGR A'R BYD**

**PAPUR 1**

**ASTUDIAETH FANWL**

**01 – OES ELISABETH, 1558-1603**

P.M. DYDD GWENER, 8 Mehefin 2007

1 awr (o arholiad 2 awr)

| Cwestiynau a atebwyd | Swyddfa'n unig |
|---|---|
| **Cw.1 (Gorfodol)** | /20 |
| **Cw.** | /25 |
| **CYFANSWM** | /45 |

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch Gwestiwn 1 (Adran A) **a** *naill ai* Cwestiwn 2 *neu* Gwestiwn 3 o Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion ar y llinellau yn y llyfryn hwn. Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os nad yw'r llinellau a ddarparwyd yn y llyfryn hwn yn ddigon. Ysgrifennwch eich enw ar bob tudalen ychwanegol a nodwch yn glir rif y cwestiwn rydych yn ei ateb. Rhowch eich tudalennau ychwanegol y tu mewn i'r llyfryn hwn.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran-gwestiwn.

Cewch farciau am ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig.

I ennill y marciau llawn ar gyfer unrhyw gwestiwn, rhaid i'ch atebion fod yn berthnasol a rhaid iddynt wneud defnydd llawn o'r wybodaeth a ddarparwyd.

**Ym mhob achos dylech gefnogi eich atebion trwy gyfeirio at eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r pwnc a ddewiswyd.**

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*Atebwch Gwestiwn 1 yn Adran A a* **naill ai** *Cwestiwn 2* **neu** *Gwestiwn 3 yn Adran B.*


**ADRAN A**

(GORFODOL)

**1. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am faterion tramor a morwrol.**

Astudiwch y ffynonellau isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn pob ffynhonnell. [20]

**<u>Ffynhonnell A</u>**




[Diagram map yn dangos llynges Sbaen a llynges Lloegr yn hwylio i fyny'r Sianel yn 1588
A = llynges Lloegr; B = llynges Sbaen]

*(a)* Defnyddiwch Ffynhonnell A, a'r hyn rydych chi'n ei wybod, i ddisgrifio tactegau llynges Sbaen yn y Sianel. [3]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Ffynhonnell B**

Wrth i'r Armada hwylio drwy'r Sianel, anfonodd pennaeth llynges Lloegr 50 o longau i ymosod ar y Sbaenwyr. Ni lwyddodd y llongau i wneud unrhyw ddifrod difrifol i'r gelyn ac aeth yr Armada yn ei blaen yn ddiogel i Galais, heb golli ond un o'i llongau. Yna cafodd yr Arglwydd Howard a'i ddau brif gapten, Drake a Hawkins, y syniad cyfrwys o ddefnyddio llongau tân.

[Roger Turvey, *Cymru a Phrydain yn y Byd Modern Cynnar, 1500-1700* (1995)]

*(b)* Defnyddiwch y wybodaeth yn Ffynhonnell B, a'r hyn rydych chi'n ei wybod, i egluro pam na lwyddodd yr Armada i goncro Lloegr. [4]

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

............................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Ffynhonnell C**

Yn y gorffennol, byddai Lloegr yn masnachu'n bennaf gyda Sbaen, Portiwgal, Ffrainc, Denmarc, Norwy, yr Alban a Gwlad yr Iâ. Nawr, gan nad yw morwyr yn fodlon ar y mordeithiau hynny, maent wedi fforio *(explored)* India'r Gorllewin ac India'r Dwyrain ac wedi cyflawni mordeithiau addawol i'r Ynysoedd Dedwydd *(Canary Islands)* a Sbaen Newydd, Tsieina a'r gwledydd cyfagos. Oddi yno maent yn dychwelyd gyda nwyddau a chynhyrchion newydd.

[Rhan o lyfr William Harrison, *Description of England*, a ysgrifennwyd yn 1586. Roedd Harrison yn glerigwr a theithiwr adnabyddus.]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw Ffynhonnell C fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio llwyddiant morwyr oes Elisabeth?
Eglurwch eich ateb trwy ddefnyddio'r ffynhonnell a'r hyn rydych chi'n ei wybod. [5]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Ffynhonnell CH**

> Dangosodd y rhyfel hir yn erbyn Sbaen nad oedd Elisabeth yn gallu ymdopi â gwrthdaro hir yn erbyn gelyn cyfoethog a phwerus. Ychydig iawn a gyflawnodd Elisabeth ym maes materion tramor a morwrol.

[David Birt, athro a hanesydd, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr ar gyfer ysgolion, *The Tudor Navy* (1975)]

*(ch)* Yn Ffynhonnell CH mae'r awdur yn dweud mai ychydig iawn a gyflawnodd Elisabeth ym maes materion tramor a morwrol.
A yw hynny'n ddehongliad dilys?
*Yn eich ateb dylech ddefnyddio'r hyn rydych chi'n ei wybod am y testun, cyfeirio at y ffynonellau eraill sy'n berthnasol yn y cwestiwn hwn ac ystyried sut y daeth yr awdur i'r dehongliad hwn.* [8]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

Examiner only
*Arholwr yn unig*

## ADRAN B


*Atebwch* **naill ai** *Cwestiwn 2* **neu** *Gwestiwn 3*.

**2. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am lywodraeth y Frenhines.**

Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [25]

**GWYBODAETH**

Byddai'r Llys Brenhinol yn symud o gwmpas i wahanol balasau. Mae'r darlun hwn yn dangos Palas Richmond, un o hoff gartrefi Llys y Frenhines Elisabeth.




*(a)* (i) Beth oedd y Llys Brenhinol? [2]



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

(ii) Eglurwch pam roedd Elisabeth mor boblogaidd pan ddaeth yn frenhines. [4]

(iii) Pa mor bwysig oedd y Cyfrin Gyngor *(Privy Council)* i lywodraeth Elisabeth? [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* (i) Disgrifiwch waith Syr Francis Walsingham. [3]

(ii) Eglurwch pam y daeth y Senedd yn fwyfwy pwysig yn ystod teyrnasiad Elisabeth. [4]



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* A oedd Elisabeth yn llwyddiannus bob amser fel llywodraethwr yn ystod ei theyrnasiad? Eglurwch eich ateb yn llawn. [7]

**3. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am wrthdaro crefyddol.**

Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [25]

**GWYBODAETH**

Roedd llawer o wrthdaro crefyddol yn oes Elisabeth. Mae'r darlun hwn yn dangos Piwritaniaid yn gadael Lloegr am yr Iseldiroedd a'r Almaen ar ddiwedd teyrnasiad Elisabeth.



*(a)* (i) Beth oedd Piwritan? [2]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

(ii) Eglurwch pam y dewisodd Elisabeth ‘ffordd ganol’ ym myd crefydd. [4]

(iii) Pa mor bwysig oedd ysgymuno Elisabeth gan y Pab yn 1570? [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* (i) Disgrifiwch sut y cafodd John Penri ei drin gan Elisabeth. [3]

(ii) Eglurwch pam roedd Mari, Brenhines y Sgotiaid, yn fygythiad difrifol i Elisabeth. [4]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* A oedd Elisabeth yn llwyddiannus bob amser wrth ddelio â phroblemau crefyddol yn ystod ei theyrnasiad?
Eglurwch eich ateb yn llawn. [7]